

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd
ar y 3 Mawrth 2015 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

YN BRESENNOL

**Y Cynghorydd Dewi Owen – Cadeirydd
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – Is-gadeirydd**

Y Cynghorwyr Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. David Richardson (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Bad Achub), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwyllo Dyfi), Mr Paul Fowles (Siambwr Fasnach Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi), Mr J. P. Smith (Sylwedydd ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi)
Mr Tom Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru

Swyddogion

Mr Llyr B. Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr William Stockford	-	Harbwr Feistr Aberdyfi
Mr Rob Williams	-	Peiriannydd Cynorthwyol (Ymgynghoriaeth Gwynedd)
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu
Mrs Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Gethin Williams (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. **COFNODION**

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 5 Mawrth 2013.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

3. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(A) Cod Diogelwch Harbyrau

Atgoffwyd Aelodau eu bod wedi derbyn copi o'r Cod Diogelwch cyfredol ac yn ystod yr wythnosau nesaf y byddir yn derbyn archwiliad gan swyddog perthnasol o Harbwr Caernarfon i sicrhau bod cydymffurfriad gyda chanllawiau'r cod.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod unigol o safbwynt diffyg rheolaeth lansio yng Ngheredigion, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro'r sefyllfa a cheisir rhoi pwysau arnynt i gael rheolaeth ar lansio o Ynys Las. Tynnwyd sylw nad oedd cod y Cyngor hwn yn berthnasol i'r ardal i'r de o'r aber oherwydd ei fod dan reolaeth Cyngor Ceredigion ac o bosibl dan oruchwyliaeth harbyrau Aberystwyth ac Aberaeron. Derbyniwyd bod angen cael gwell rheolaeth ac fe wneir hyn yn ystod tymor yr haf. Nodwyd ymhellach bod canran o'r badau dwr personol wedi lleihau i gymharu â'r blynyddoedd a fu.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(B) Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau – Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i gysoni cylch gorchwyl ac aelodaeth pob Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr y Cyngor a chyfeiriwyd at ohebiaeth a ddanfonwyd i bob sefydliad gan y Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu a'r angen i gyfyngu nifer o'r sefydliadau i wasanaethu ar y Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau i 7. Atgoffwyd ymhellach pe byddai mwy na 7 sefydliad yn dangos diddordeb mai mater i'r Aelod Cabinet Economi fyddai dewis yr aelodaeth derfynol.

Nodwyd ymhellach y byddir yn atgyfodi'r trafodaethau a gynhaliwyd yn flaenorol gyda grŵp o Aelodau penodol tu allan i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

Nododd y Cadeirydd y byddai croeso i unrhyw un fynychu'r Pwyllgor Harbwr a chyfrannu pe byddai dymuniad, ond bod cyfyngiad ar y niferoedd i bleidleisio ar faterion.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod ac edrych ymlaen am gadarnhad maes o law gan yr Aelod Cabinet Economi o'r aelodaeth derfynol.

(C) Mordwyo ac Angorfeydd

(i) Cyflwynwyd yn ystod y cyfarfod daflen gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn rhestru'r holl gymhorthyddion mordwyo gan nodi bod rhai ohonynt wedi creu problemau dros y blynyddoedd. Tywyswyd yr Aelodau drwy'r rhestr gan nodi'r bwriad ar gyfer y tymor fel a ganlyn:

- Parhau gyda'r Bwi allanol a South Spit
- Parhau gyda Bwiau 1, 2 a 3
- Parhau gyda Bwi Rhif 5

(ii) Cyfyngir y nifer o fwiau i 5 yn yr harbwr mewnol gan y byddai hyn yn llawer iawn mwy cost effeithiol i'w cynnal a'u cadw. Nodwyd ymhellach y byddai'r bwiau yn cael eu goleuo i gyd ac ymestyn pwysau'r cadwyni o 19 mm i 22 mm. Bwriedir cynnig tendrau i'w gosod gan gontractwyr cymwys.

(iii) Yn ystod y drafodaeth amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol ac ymatebwyd iddynt gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'r Harbwr Feistr:

- (a) Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r trefniadau uchod a'i fod yn gwneud synnwyr ac y byddai gosod mwy o fwiau yn ddryslyd
- (b) Bod y marciwr o safbwynt cyflymder o ddim mwy na 4 m.y.a. i mewn i'r Harbwr yn dderbyniol
- (c) Yn y gorffennol bod y bwi mewnol wedi ei leoli i'w anelu at y lanfa

- (d) Pwysigrwydd i contractwyr lleol cymwys eu gosod a'u cynnal a'u cadw er mwyn cadw'r gwaith yn lleol
- (e) Yr angen i osod y bwi melyn mewn llinell gyda'r Leri a ddim rhy bell allan
- (f) Anfonwyd at yr holl gwsmeriaid gan nodi bod 66 ffurflen cofrestru angorfeydd allan o 86 wedi dychwelyd i'r Harbwr Feistr ac fe fyddir yn mynnu derbyn tystysgrif angorfa gan y contractwr neu'r perchennog fel rhan o ganllawiau Is-ddeddfau'r Harbwr.
- (g) Anfonwyd at 3,000 o berchnogion cychod pŵer ar gyfer ail-gofrestru gyda 25% wedi eu hanfon drwy'r post a'r 75% ar ffurf electroneg

(iv) Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglŷn â phwysigrwydd marchnata'n briodol ar gyfer ceisio denu mwy o bobl i gael angorfeydd yn Aberdyfi, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth yn hysbysebu ar un tudalen yn "Practical Boat Owner" a'i fod yn hynod gostus i fynychu Sioeau Cychod. Rhaid cofio bod morwyr yn cael ei denu i lefydd arbennig a'i fod yn anodd targedu'r farchnad ar hyn o bryd. Roedd yn wybyddus bod llawer iawn o Harbyrau yn hysbysebu ond eto bod ganddynt lefydd gweigion. Hyderir y bydd yr economi yn codi drwy ostyngiad mewn tanwydd. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod cryn waith wedi ei gyflawni ar safle wefan y Cyngor sydd yn un gam ymlaen ar gyfer marchnata a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag awdurdodau Conwy ac Ynys Môn er mwyn gallu rhannu costau i farchnata Gogledd Orllewin Cymru ar y cyd. Ond fel Adran ac o ran presenoldeb ar y We, hyderir y bydd hyn yn cynnig cyfle i gysylltu hefo twristiaid.

(v) Ychwanegwyd bod gan yr Adran darged o £1.7m o arbedion effeithlonrwydd ac wedi adnabod meysydd i'w targedu ond wedi ceisio gwarchod y gyllideb cyfalaf dros y 2/3 blynedd nesaf ond fe fyddai trafodaethau o safbwynt y gyfundrefn toriadau yn dra gwahanol.

(vi) Awgrymodd Aelod y byddai'n fanteisiol i'r gymuned leol gynhyrchu taflen / hysbyseb syml ynglŷn ag angorfeydd i'w gynnwys yng nghylchlythyr lleol y gymuned, yn ogystal â Dail Dysynni (papur bro Tywyn), Blewyn Glas (papur bro Machynlleth) oherwydd teimlwyd bod oddeutu 90% o gwsmeriaid gydag angorfeydd yn lleol. Hefyd, o ran marchnata awgrymwyd i'r Gwasanaeth Morwrol anfon cerdyn Nadolig i gwsmeriaid / ymwelwyr yr Harbwr i'w denu yn ôl gan fo angen mwy o gychod ar y dŵr yn Aberdyfi.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i ostwng y nifer o fwiau fel awgrymwyd gan y Swyddog Morwrol i'w weithredu ar gyfer y flwyddyn hon gan nodi pwysigrwydd:

- (i) i contractwr lleol cymwys ymdrin â'r gwaith o'u gosod a'u cynnal a chadw.
- (ii) I'r Harbwr Feistr gysylltu hefo holl ddefnyddwyr yr Harbwr ynglŷn â'r lleoliadau

(D) Cyllidebau Harbyrau

(i) Cyflwynwyd taenlen gyllideb i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod a thywyswyd hwy drwy'r wybodaeth gan nodi bod cyfanswm gwariant rhedeg yr Harbwr o ran cynnal a chadw, offer a chelfi, costau staffio a thrafnidiaeth yn £78,540 gyda £50,732.11 wedi ei ymrwymo ac £28,557.89 yn weddill. Nodwyd bod targed incwm yr Harbwr yn £33,270 gyda £26,511.53 wedi dod i mewn a diffyg o £6,758.47 ar ddiwedd Chwefror 2015.

(iii) Nodwyd bod £11,569.71 o danwariant yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon gan gofio bod £10,000 wedi ei drosglwyddo i Harbwr Aberdyfi o bennawd arall ers peth blwyddyn bellach. Roedd y sefyllfa ariannol yn weddol iach ond rhaid cofio bod llawer iawn o fuddsoddiad i'w gyflawni o safbwynt y trefniadau mordwyo.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(DD) Gwelliannau

(i) Ansawdd Dŵr Ymdrochi

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Tom Lewis, Swyddog yr Amgylchedd o Gyfoeth Naturiol Cymru, i'r cyfarfod i annerch aelodau ar ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi. Cyflwynwyd data i'r aelodau o wefan *Bathing Water Data Explorer* ac roedd modd gweld hwn ar unrhyw adeg ynghyd â dolennau i draethau cyfagos. Nodwyd fod y data ar gyfer y tymor yn ogystal â darogan unrhyw lygredd.

Cyfeiriwyd yr aelodau at y graff cyntaf oedd yn dangos y canlyniadau o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi bresennol am 2014 oedd yn ardderchog, tra bod 2013 wedi bod yn wael. Yn 2006 cafodd y traeth statws y faner las. Dywedwyd bod yr ansawdd yn amrywio ond roedd y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi yn gosod safonau tynnach na'r gyfarwyddeb wreiddiol ac roedd angen defnyddio data am bedair blynedd ar bedwar safon newydd: ardderchog, da, digonol a gwael. .

Roedd Tabl 4 ar y gyfarwyddeb ddiwygiedig a ddarparwyd i'r aelodau yn cyfeirio yn ôl at 2004 pan roedd ansawdd y dŵr wedi bod un ai yn wael neu yn ddigonol hyd at 2014, a gellid gweld hyn o'r data nad oedd Aberdyfi yn cyrraedd da. Os yw ansawdd y dŵr yn mynd yn wael roedd yn ofynnol i'r awdurdod lleol reoli'r ymdrochi yn unol â gofynion y gyfarwyddeb newydd ac roedd rhaid ymdrechu i atal ymdrochi.

I ateb ymholiad gan Aelod, nodwyd nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru erioed wedi cael unrhyw adroddiadau am salwch oherwydd canlyniadau dŵr ymdrochi gwael ac roedd yn annhebygol o dderbyn unrhyw rai gan mai adran iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol fyddai'n derbyn adroddiadau o'r fath. Roedd y safonau gofynnol yn cael eu gosod gan Ewrop.

Yn ôl yn 2011, roedd y canlyniadau wedi bod yn dda ac roeddent yn edrych yn gymharol addawol ond yn 2012 llithrodd y canlyniadau yn ôl yn wael. Treuliodd y swyddog y rhan fwyaf o'r haf yn ymweld â ffermydd ac eiddo yn yr ardal a gwelwyd fod problemau yng Ngwaith Carthffosiaeth Machynlleth.

Nodwyd ymhellach, y byddai Staff Morwrol o 2013 ymlaen yn gwirio'r hyn oedd yn cael ei ddarogan i'r traeth, os fyddai'n wael yna byddai arwyddion yn cael eu codi. Roedd hi'n anodd iawn darogan ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi. Roedd 2013 yn cyd-daro gyda nifer o samplau Cyfoeth Naturiol Cymru a gymerwyd ar lanw isel ac arhosodd y traeth yn wael. Ar ddŵr isel, bydd y samplau yn achosi problemau oherwydd bod bacteria yn naturiol uchel. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Adran Forwrol ar amryfal opsiynau a phenderfynwyd creu man samplo newydd, yn y traeth ger y fynwent yn Aberdyfi sydd o ansawdd ardderchog. Er hynny, nid yw Aberdyfi yn unigryw fel aber; mae dau draeth arall tebyg – Traeth Gorllewin Llandudno a West Kirby ble mae'r halwynedd rhwng 30 a 35.

Roedd y gyfarwyddeb ddiwygiedig yn canolbwyntio ar hysbysu'r cyhoedd.

Nodwyd fod yr Uwch Swyddog wedi cyfarfod gyda'r Cynghorydd Dewi Owen, Alun Evans (Iechyd yr Amgylchedd) a'r Swyddog Morwrol i drafod opsiwn da i samlo bob ochr i lanw isel ar sail cyfnod o 5 awr. Ychydig o fisoedd wedyn roedd y penderfyniad wedi ei wneud a'r farn oedd bod 2 awr bob ochr i lanw isel yn ddigonol. Nodwyd ymhellach nad oedd unrhyw warrant, ond roedd yn gam ymlaen. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio yn nalgylch Dyfi ac roedd pethau i weld yn fwy cadarnhaol ond roedd angen edrych ar ddata eleni.

Wrth ateb cwestiynau, nododd y Swyddog fel a ganlyn:

- (a) Nad oeddent yn monitro ar ddŵr isel ond roedd ganddynt arian i fonitro'r nentydd.
- (b) Ynglŷn ag uchder y llanw. Roedd yr Athro David Kay o Aberystwyth a'i dŵm yn edrych ar 7 o draethau yng Nghymru gyda'r bwriad o gynhyrchu model i'r dyfodol.
- (c) O ran ymateb i'r arwyddion, nid yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn nodi'r faner las.
- (d) O ran gwrthweithio'r newyddion drwg o ran hysbysebu, ni fydd traeth gwledig y fynwent yn cwrdd â meini prawf y faner las, ond bydd yn cwrdd a'r meini prawf i'r faner werdd arfordirol a byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud cais i ddynodi'r traeth yma. Byddai traeth canolog Aberdyfi yn wych i dorheulo, gweithgareddau outward bound ac ati.

Nododd yr aelodau'r pwyntiau a ganlyn:

- (i) Mynegwyd pryder am ddynodi traeth gwledig Aberdyfi oherwydd ansawdd dŵr gwell i ymdrochi, gan nad oedd y lle mwyaf diogel i nofio.
- (ii) Roedd gwelliannau wedi eu gwneud ac roedd problemau wedi eu datrys ond roedd problemau o hyd gyda baw creaduriaid gwyllt oedd yn difetha'r tir glas

Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i Mr Tom Lewis am yr adroddiad uchod.

(ii) Wal y Cei

Adroddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned nad oedd newid sylweddol i ddyluniad y cynllun ers ei gyflwyno i'r cyfarfod diwethaf a'r cam cyntaf ydoedd cyflwyno cais cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri erbyn dechrau mis Ebrill. Fe fydd cyfnod ymgynghori fel rhan o gyflwyno'r cais gyda chyfle i gyrff a mudiadau lleol gefnogi'r cais. O safbwynt pecyn ariannol, roedd yn gynamserol i wneud cais ond byddai darparu achos economaidd gyda chefnogaeth leol o fantais.

Apeliodd y Cadeirydd ar aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol i ysgrifennu i'r Parc Cenedlaethol i gefnogi'r cais.

Nodwyd ymhellach bod cais i Ymgynghoriaeth Gwynedd i ystyried y sefyllfa lansio cychod yn enwedig pen y llithrfa fel bod modd rhoi mwy o le i gerbydau ac ôl-gerbydau lansio.

Ychwanegodd y Cadeirydd bod cyfarfod buddiol wedi ei gynnal i drafod y cynllun pryd trafodwyd pryder ynglŷn â chael cychod i Bae'r Eglwys ynghyd â mantais i wella'r fynedfa. Awgrymwyd opsiwn, sef tynnu rhan o'r gwelyau blodau a olygai colli dau fan parcio ac a fyddai yn ei dro yn rhwydd i'r lorïau, a.y.b. gael mynediad i Bae'r Eglwys ynghyd â gwell mynediad i wal y cei.

(iii) Cynllun Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion

Cyfeiriwyd at gynllun Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion i greu hafan ddiogel ym mhen dwyreiniol yr Harbwr ble y gellir clymu had at bedwar cwch ar unrhyw adeg yn ddiogel i wynebu unrhyw storm. Awgrymir hefyd cael mynedfa llithrfa newydd i wella lansio cychod bach. Roedd y cysyniad o hafan ddiogel yn golygu adeiladu wal 27m o hyd i uchder tebyg i'r wal ochr ar y cei, fydd yn rhedeg yn gyfochrog gydag ochr ddwyreiniol wal yr harbwr am bellter o 10m. Yn y pen gogleddol, adeiladir wal arall ar 90° yn rhedeg yn ôl at wal wreiddiol yr harbwr. Byddai hyn yn caniatáu i fan caled gael ei adeiladu rhwng y wal ac ochr y ffordd ble mae pen llithrfa Bae'r Eglwys yn awr.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod hafan ddiogel wedi bodoli ym Mhenhelyg

- bod y pysgota yn dda a bod angen cyfleuster o'r fath i bysgotwyr
- 3 prif bysgotwr sydd yn gweithredu yn yr ardal a'u bod yn denu ymwelwyr i'r ardal yn enwedig i brynu pysgod ffres
- y byddai'n fanteisiol pe byddai defnyddwyr eraill heblaw'r pysgotwyr yn gallu cael defnydd ohono
- ei fod yn brosiect cyffrous ac y byddai'n fuddsoddiad o £1.2m i Aberdyfi ac o fudd i'r dyfodol

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y Gymdeithas Pysgotwyr wedi gweld cyfle ac ni ddylid diystyru unrhyw gais. Pryderai am gyplysu'r cais hwn fel un gyda chynlluniau'r wal y cei oherwydd risg i'r cynllun hwnnw fethu. Pe byddai ffynonellau ariannol eraill i'r Gymdeithas Pysgotwyr i'w hystyried efallai y byddai modd i'w ystyried fel cymal ychwanegol. Cytunodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ymchwilio i ffynonellau eraill i ariannu'r prosiect ar wahân ac adrodd yn ôl ar unrhyw ganfyddiadau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn yr Hydref.

- Penderfynwyd:**
- (a) **Derbyn a nodi'r wybodaeth ynglyn â chynllun wal y cei.**
 - (b) **Cefnogi cais Cymdeithas y Pysgotwyr gan nodi'r bwriad i gadw'r cynlluniau ar wahân.**
 - (c) **Cynghori'r Gymdeithas Pysgotwyr o'r pwysigrwydd i geisio adnabod ffynonellau arian er gwireddu'r cynllun.**
 - (ch) **Gofyn i'r Uwch Reolwr Economi a Chymuned ymchwilio ymhellach i ffynonellau ariannol ar gyfer cais i wella wal y cei yn Aberdyfi.**

(iv) Datblygiad Adeilad y Bad Achub

Adroddwyd bod y cynigion gwreiddiol wedi cael ei haddasu, ond nad oedd ôl-troed yr adeilad ddim gwahanol. Bydd y cais cynllunio ffurfiol yn cael ei gyflwyno a bod angen i bob partner i weithio gyda'i gilydd. Y nod yw dechrau'r gwaith ym mis Medi 2015 a gobeithio cwblhau erbyn Mawrth 2016.

Penderfynwyd: **Derbyn a nodi'r uchod.**

(E) Staff Harbwr

- (i) Hysbysebwyd am swydd Cymhorthydd Harbwr i Aberdyfi ac roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn ffyddiog y byddai penodiad wedi ei wneud a'r ac yn weithredol erbyn 1af Ebrill. Bwriedir cyflogi 1 swyddog i'r traeth yn Aberdyfi a 2 swyddog ar gyfer traeth Tywyn.

Mewn ymateb, croesawyd y newyddion da i apwyntio Cymhorthydd Harbwr. Yn ogystal, gwerthfawrogir y Wardeiniaid Traeth sydd yn cyfrannu'n enfawr at ansawdd y traethau.

- (ii) Nodwyd bod costau sylweddol ar gyfer atgyweirio Pont Bryn Llestair ac mai'r prif ddefnyddwyr ydoedd yr Outward Bound a gofynnwyd a fyddai modd ystyried unrhyw gymorth ariannol tuag at gostau adnewyddu'r bont. Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd yr Outward Bound y byddai'n rhaid cael penderfyniad cenedlaethol yn hytrach na lleol ynglyn â'r cais.
- (iii) Byddir yn symud tywod ar 16 Mawrth yn Aberdyfi ac ar 17 Mawrth yn Abermaw.

- (iv) Adroddodd yr Harbwr Feistr ar faterion o fewn ei raglen waith megis gwaith i'r lanfa, raciau'r cychod bach, caiacau, trwsio o gwmpas yr Harbwr, ac apeliwyd ar Aelodau i gysylltu â'r harbwr Feistr yn uniongyrchol gydag unrhyw bryderon fel bod modd gweithredu'n brydlon.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

(a) Llithrfa Cliffside – pryder ynglyn â chyflwr gwael y llithrfa

Sicrhawyd y byddai'r Harbwr Feistr yn ymdrin â'r uchod.

(b) Prif Lithrfa wrth ymyl y Bad Achub - pryder ynghylch cyflwr gwael y llithrfa, sydd wedi treulio ac o bosib yn beryglus, yn enwedig yng nghyswllt y dur cyfnerth sydd yn y golwg.

- Nododd y Cadeirydd bod angen symud tywod yn ddi-oed er mwyn ei wneud yn rhwydd i'r Bad Achub.
- Nododd Aelod bod difrod i'r llithrfa wedi digwydd o ganlyniad i'r llanw ac y byddir yn dod i gytundeb ynglyn â chyfraniad ariannol tuag at y difrod.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Mawrth, 12 Tachwedd 2015 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2015.

CADEIRYDD.